**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 4) (Cymru) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y daw'r offeryn statudol hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2021, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl ei osod. Mae'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u hatodi er gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio paragraff 1(1) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") drwy estyn y cyfnod perthnasol y mae Atodlen 29 yn gymwys ynddo hyd 24 Mawrth 2022, sef pan ddaw Deddf y Coronafeirws 2020 i ben.

Effaith y newidiadau hyn fydd estyn y cyfnod pan fydd angen i landlordiaid, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, roi mwy o rybudd i denantiaid cyn cychwyn achos adennill meddiant yn y llysoedd.

Yng ngoleuni parhad y pandemig, ac ar adeg pan fo bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd o hyd, o ganlyniad i'r ffaith bod cyfraddau achosion Covid-19 yn parhau i fod yn uchel a bod pryder ynghylch yr amrywiolyn Omicron newydd sydd wedi dod i'r amlwg, mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad fod angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 31 Rhagfyr 2021, daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Rhagfyr. Oherwydd y brys, nid yw'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau wedi bod yn destun ymgynghoriad ac ni chafwyd amser i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â nhw.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau a Julian Lake, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd